AMODAU A THELERAU CYNNIG AELODAETH Y GAMPFA A DOSBARTHIADAU A'R PWLL A MWY CHWARAEON ABERTAWE

1. DEHONGLIAD
Mae pob cyfeiriad at 'rydych' 'chi' ac 'eich' yn gyfeiriad at yr unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen gais Chwaraeon Abertawe.

Mae pob cyfeiriad at 'rydym' 'ni' ac 'ein' yn gyfeiriad at Bwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (WNPS) a Chwaraeon Abertawe

Mae 'Y Rheolwr' yn cyfeirio at Reolwr WNPS ar y pryd ac mae'n cynnwys unrhyw gyflogai arall a allai fod yn gweithredu ar ran y rheolwr.

Mae 'Y Cytundeb' yn golygu'r Cytundeb Aelodaeth Chwaraeon Abertawe yr ymrwymwyd iddo rhyngoch chi a ni sy'n cynnwys ffurflen gais Cynllun Chwaraeon Abertawe, ymwadiad meddygol, yr amodau a thelerau hyn a rheolau WNPS.

Cwsmeriaid:
Mae 'Cwsmer sydd wedi talu ymlaen llaw' yn rhywun sy'n talu'r Ffi Aelodaeth ymlaen llaw yn flynyddol.

FFIOEDD
'Ffi Aelodaeth' yw ffi WNPS/Pentref Chwaraeon Prifysgol Abertawe am gynlluniau aelodaeth campfa Chwaraeon Abertawe. Dylid talu Ffi Aelodaeth WNPS/Chwaraeon Abertawe yn llawn ymlaen llaw neu'n fisol ymlaen llaw drwy ddebyd uniongyrchol.

Rydym yn cadw'r hawl i adolygu'r ffi danysgrifio unrhyw bryd.

2. HYD CYNLLUNIAU AELODAETH O'R GAMPFA
2.1 CYNLLUNIAU AELODAETH CYFFREDINOL
Mae aelodaeth Chwaraeon Abertawe ar gael fel aelodaeth un semester neu ddau semester (myfyrwyr yn unig), aelodaeth flynyddol (12 mis) neu am un mis, i gyd yn weithredol o'r dyddiad ymaelodi ac yn unol â'r dyddiadau semester a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r cyfnod yn dechrau'r diwrnod ar ôl i'r Ffi Aelodaeth gael ei derbyn am gyfnod y cynllun a ddewiswyd.

Mae Chwaraeon Abertawe yn cau am wyliau banc ac mae'n gweithredu rhaglen cynhaliaeth barhaus a allai effeithio ar oriau agor. Ni fydd gan gwsmeriaid ganiatâd bob amser i ddefnyddio cyfleusterau pan fydd WNPS neu Chwaraeon Abertawe'n cynnal digwyddiadau mawr. Bydd WNPS a Chwaraeon Abertawe'n rhoi rhybudd digonol am y digwyddiadau hyn ac ni fydd cynllun aelodaeth y Pentref Chwaraeon a Mwy i fyfyrwyr yn cael ei estyn na iawndal yn cael ei dalu.

Wrth i chi danysgrifio, darperir Cerdyn Aelodaeth y Pwll a Mwy Chwaraeon Abertawe i'w ddefnyddio ym Mhwll Cenedlaethol Cymru Abertawe, a bydd hwn yn parhau'n eiddo WNPS. Os terfynir y cytundeb hwn am unrhyw reswm, rhaid i chi ddychwelyd y cerdyn hwn i WNPS. I ddefnyddio cyfleusterau Chwaraeon Abertawe, bydd rhaid i chi gyflwyno eich cerdyn myfyriwr. Os terfynir y cytundeb hwn am unrhyw reswm, ni fydd eich cerdyn yn weithredol mwyach.

2.2 Gostyngiad 15%
Bydd y cynnig o ostyngiad 15% ar bob aelodaeth Chwaraeon Abertawe - aelodaeth flynyddol ac aelodaeth dau semester i fyfyrwyr - ar gael o 24 Awst tan 31 Hydref 2020. Mae'r cynlluniau aelodaeth hyn yn amodol ar y polisïau canslo yn adran 4.
Bydd gostyngiad 15% ar gael i bob aelodaeth Debyd Uniongyrchol neu Gyflogres a brynir ar sail ymrwymiad 12 mis rhwng 24 Awst a 31 Hydref 2020. Bydd y gostyngiad 15% yn weithredol o'r mis pan brynir yr aelodaeth tan 31 Rhagfyr 2020 pan fydd y pris aelodaeth sylfaenol yn berthnasol eto, sef £22.00 am aelodaeth y Gampfa a Dosbarthiadau neu £27.50 am Aelodaeth y Pwll a Mwy.

2.3 Cynnig Deufis i Fyfyrwyr
Caiff myfyrwyr brynu aelodaeth y Gampfa a Dosbarthiadau am £28.50 neu aelodaeth y Pwll a Mwy am £39.50. Mae'r cynnig hwn ar gael o 24 Awst tan 31 Hydref 2020. Bydd yr aelodaeth yn weithredol o'r dyddiad prynu a bydd yn para 62 o ddiwrnodau. Pan ddaw'r aelodaeth i ben, cysylltir ag aelodau i roi gwybod iddynt am yr opsiwn i brynu aelodaeth wahanol o Chwaraeon Abertawe neu WNPS.

3. EICH RHWYMEDIGAETH CHI
Taliadau ffi aelodaeth
Cydymffurfiaeth ag amodau a thelerau a rheolau Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe a Chwaraeon Abertawe (wedi'u hatodi yn 10 PWYNTIAU CYFFREDINOL).

Rhaid defnyddio'r holl gyfarpar a chyfleusterau yn unol â'r holl gyfarwyddiadau defnyddio. Ni ddylid camddefnyddio'r cyfarpar a'r cyfleusterau mewn unrhyw ffordd, a rhaid i chi ymddwyn mewn modd trefnus bob amser heb ymyrryd â defnydd neu fwynhad cwsmer arall o'r cyfleusterau. Dylai defnyddwyr y Gampfa geisio cyngor gan staff y gampfa yn ôl yr angen.

4. CANSLO - GENNYCH CHI NEU GENNYM NI
Ni fydd cwsmeriaid sydd wedi talu ymlaen llaw yn derbyn ad-daliad o'r Ffi Aelodaeth nac unrhyw ran ohoni os hoffent ganslo'r cytundeb yn gynnar, cyn diwedd cyfnod yr aelodaeth.
Bydd aelodau sy'n talu'n fisol drwy Ddebyd Uniongyrchol neu drwy Gyflogres Prifysgol Abertawe yn cael eu rhwymo gan gontract 12 mis. Ar ôl diwedd y cyfnod 12 mis hwnnw, caiff aelodau sydd am ganslo eu haelodaeth wneud hynny drwy roi rhybudd 30 o ddiwrnodau.
Mae'n ofynnol i aelodau dalu'r nifer lleiaf o gyfnodau Debyd Uniongyrchol neu Gyflogres a nodwyd, gyda'r un cyntaf yn cael ei dalu ar y dyddiad talu cyntaf a phob mis wedi hynny. Mae'n rhaid talu'r taliadau, waeth a yw'r aelod wedi defnyddio'r cyfleusterau ai peidio, oni nodir yn wahanol, neu os bodlonir y telerau canslo.
Os bydd Chwaraeon Abertawe yn canslo eich aelodaeth am i chi beidio ag ufuddhau i'w hamodau a thelerau, tybir y bydd eich aelodaeth wedi'i chanslo gan WNPS hefyd, ac i'r gwrthwyneb.

5. TERFYNU GAN WNPS/CHWARAEON ABERTAWE
Gallwn derfynu eich aelodaeth o Chwaraeon Abertawe drwy rybudd ysgrifenedig o saith niwrnod, neu ar unwaith yn ôl ein doethineb, os ydych yn torri'r cytundeb hwn mewn modd difrifol neu oherwydd mân doriadau mynych.
Mae WNPS a Chwaraeon Abertawe'n cadw'r hawl wrthod mynediad i gwsmer neu i fynnu bod cwsmer yn gadael y safle heb roi rheswm a chedwir yr hawl i beidio â chynnig ad-daliad mewn sefyllfaoedd o'r fath.
Os caiff eich aelodaeth ei therfynu am unrhyw un o'r rhesymau a nodir yn 10, ni fydd gennych hawl i dderbyn unrhyw ad-daliad o'r ffi aelodaeth.

6. RHEWI AELODAETH
Gallwn rewi eich aelodaeth gyfredol am gyfnod amhenodol oherwydd sefyllfaoedd y tu hwnt i'n rheolaeth pan fydd rhaid i'n cyfleusterau gau. Bydd aelodau'n derbyn o leiaf 24 awr o rybudd ym mhob sefyllfa rewi. Yn ystod y cyfnod dan sylw, ni fydd aelodau'n cael mynediad i'n cyfleusterau ac ni chodir ffioedd aelodaeth. Caiff pob aelodaeth ei dadrewi gan roi o leiaf 10 niwrnod o rybudd i aelodau, ynghyd â'r union ddyddiad pan fydd angen talu'r ffi aelodaeth gyntaf. Yn ystod y cyfnod 10 niwrnod hwn, caiff aelodau derfynu eu haelodaeth heb gosb. Os yw aelod yn dewis terfynu ei aelodaeth y tu allan i'r cyfnod rhybudd 10 niwrnod a roddwyd, codir y ffi ganslo arferol. Gweler Adran 4.

7. ATEBOLRWYDD
Ni fydd, WNPS, Chwaraeon Abertawe a'r holl gyflogeion eraill yn atebol mewn unrhyw ffordd o gwbl am golled, difrod neu ladrad eiddo cwsmeriaid neu westeion nac am anaf personol neu farwolaeth unrhyw gwsmer neu westai, ac eithrio i'r graddau y mae'r fath golled, difrod neu anaf personol neu farwolaeth yn deillio o weithred fwriadol, esgeulustod neu ddiffyg gennym ni.

8. AMRYWIO TELERAU
Rydym yn cadw'r hawl i amrywio'r amodau a thelerau hyn, gan gynnwys rheolau WNPS a Chwaraeon Abertawe unrhyw bryd, er mwyn adlewyrchu newidiadau sy'n berthnasol i reoli a gweithredu'r cyfleusterau. Byddwn yn gwneud ymdrechion rhesymol i roi rhybudd i chi cyn gwneud newidiadau drwy arddangos hysbysiad priodol yn y cyfleusterau, oni bai fod y newidiadau'n hanfodol am resymau iechyd a diogelwch neu'n hanfodol i ddiogelu ein buddiannau.

Os nad ydych yn derbyn y newidiadau arfaethedig ac os gallwch ddangos i'n boddhad rhesymol bod y newidiadau'n peri anfantais faterol i chi, cewch ganslo'r cytundeb. Byddwn yn rhoi ad-daliad priodol o'r ffi aelodaeth ar gyfer y cyfnod o'r cytundeb sy'n weddill yn achos cwsmeriaid sydd wedi talu ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw eich hawl i derfynu'n berthnasol os gorfodwyd i ni gyflwyno'r newidiadau gan ddeddfwriaeth, rheoliad gan y llywodraeth neu awdurdod lleol neu unrhyw gorff cymwys arall.

9. GWYBODAETH BERSONOL

Rydym yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth yn eich cais am Aelodaeth Chwaraeon Abertawe, ac unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei darparu i ni, er mwyn i ni allu darparu ein gwasanaethau i chi ac ymdrin â'ch ceisiadau.

Caiff yr wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu i ni ei chasglu a'i phrosesu at ddibenion monitro a dadansoddi ein busnes, marchnata a chyfathrebu mewn cysylltiad â'n cynhyrchion a'n gwasanaethau ni a rhai cwmnïau eraill. Gellir cyfathrebu â chi drwy e-bost neu'r post.

Gellir datgelu gwybodaeth bersonol hefyd i asiantau neu drydydd partïon a benodwyd gennym ni neu gan aelodau eraill o gwmnïau eraill i ymgymryd â gweithgareddau marchnata a chyfathrebu os ydych chi wedi nodi'r dewis hwn ar eich ffurflen aelodaeth.

Mae gennych hawl i dderbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi ac i ofyn i ni gywiro camgymeriadau drwy ysgrifennu atom.

Fel tanysgrifiwr i "Aelodaeth Pwll a Mwy" Chwaraeon Abertawe sy'n cael ei chynnal gan WNPS mewn partneriaeth â Chwaraeon Abertawe, bydd rhaid i'ch manylion gael eu rhannu rhwng y ddau barti er mwyn i'ch aelodaeth ar gyfer y safle gael ei phrosesu'n briodol.

10. PWYNTIAU CYFFREDINOL

Os byddwn yn trosglwyddo unrhyw hawl neu atebolrwydd o dan y cytundeb hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Os bydd y manylion personol rydych wedi'u darparu i ni yn newid, rhaid i chi ysgrifennu atom i roi gwybod i ni. Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am newid cyfeiriad, tybir bod unrhyw gyfathrebiad wedi'i dderbyn gennych pum niwrnod ar ôl i ni ei anfon.

Mae WNPS, Chwaraeon Prifysgol Abertawe a'u meysydd parcio yn gyfleusterau dim smygu.

Os bydd anghytundeb wrth ddehongli rheolau WNPS/Chwaraeon Abertawe, ein penderfyniad ni fydd yn derfynol. Drwy lofnodi'r aelodaeth, rydych chi'n cytuno i ufuddhau i'r amodau a thelerau hyn a'r holl reolau defnyddio.

Yn ogystal:-

a. Ni chaniateir dod ag eitem neu sylwedd peryglus neu wenwynig i'r cyfleuster.
b. Os oes gennych haint neu afiechyd heintus, ni chewch fynd i mewn i'r pwll nofio neu ardaloedd newid y pentref chwaraeon.
c. Ni chaniateir baeddu neu lygru dŵr y pwll nofio
ch. Ni chaniateir bwyta bwyd nac yfed diodydd yn WNPS neu Chwaraeon Abertawe os na chawsant eu prynu yn WNPS neu Chwaraeon Abertawe, ar wahân i hydradu hanfodol a maetholion chwaraeon.
d. Rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan y rheolwr os hoffech dynnu lluniau neu wneud recordiad fideo.
dd. Rhaid cadw eich holl eiddo personol yn loceri WNPS neu Chwaraeon Abertawe oni hysbysir yn wahanol.
e. Mae holl amodau a thelerau defnyddio Chwaraeon Abertawe'n berthnasol am hyd eich aelodaeth. Tybir bod diffyg cydymffurfiaeth ag amodau a thelerau un parti sy'n arwain at wahardd aelod yn torri amodau a thelerau'r llall.
f. Ni ellir trosglwyddo aelodaeth Chwaraeon Abertawe. Y person a enwir ar y cais am aelodaeth yn unig gaiff ddefnyddio'r aelodaeth.
ff. Mae rheolau unigol yn berthnasol i'r holl gyfleusterau unigol er iechyd a diogelwch yr holl ddefnyddwyr a staff. Rhaid glynu wrth y rhain ar bob adeg.